












# COFRESTR RISG GYMUNEDOL

## GOGLEDD CYMRU

PREPARING FOR EMERGENCIES



# CYNNWYS


CYFLWYNIAD 3

LLIFOGYDD 4

TYWYDD GARW 5

PANDEMIG 6

TERFYSGAETH 7

DIGWYDDIADAU DIWYDIANNOL 8

COLLI ISADEILEDD HANFODOL 9

CLEFYDAU ANIFEILIAID 10

LLYGREDD 11

DIGWYDDIADAU CLUDIANT 12

BOD YN BAROD YN Y CARTREF 13

BUSNESAU YN BOD YN BAROD 14

EISIAU GWYBOD MWY 15

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL 17


WCBC/ER800/23012024



# CYFLWYNIAD

**Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer argyfyngau ar draws y rhanbarth, mae partneriaid allweddol yn cydweithio i baratoi Cofrestr Risg Gymunedol Gogledd Cymru.**

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ar yr argyfyngau mwyaf allai ddigwydd yn y rhanbarth ac mae'n cynnwys yr effaith ar bobl, cymunedau, yr amgylchedd a busnesau lleol. Mae'r risgiau hyn yn cael eu hadolygu yn rheolaidd ac maent yn cael eu rhestru ar y Gofrestr Risg ranbarthol.

Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei llunio gan Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r prif asiantaethau sy'n ymwneud ag ymateb i argyfyngau - y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, sefydliau iechyd a'r amgylchedd a'r cwmnïau gwasanaethau.

Y pwrpas cyffredinol ydi sicrhau bod cynrychiolwyr yn cydweithio i gyflawni lefel priodol o barodrwydd i ymateb i argyfyngau allai gael effaith sylweddol ar gymunedau Gogledd Cymru.

## Proffil Ardal Gogledd Cymru

Mae Gogledd Cymru ar ochr orllewinol Ynysoedd Prydain ac mae'n ffinio tua'r gogledd a'r gorllewin â Môr Iwerddon, tua'r dwyrain â Lloegr (Swydd Caer a Sir Amwythig yn benodol) a thua'r de â chanolbarth Cymru (siroedd Powys a Cheredigion yn benodol).

Mae arwynebedd tir Gogledd Cymru yn oddeutu 6,172 cilometr sgwâr (sydd gyfystyr â 29% o holl arwynebedd tir Cymru), ac mae'r morlin bron yn 400 cilometr o hyd.

Mae Gogledd Cymru wedi'i rannu'n chwe sir - Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.



Cyfanswm poblogaeth breswyl Gogledd Cymru ydi 694,826 (data 2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol), gyda'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn yr ardaloedd mwy diwydiannol a threfol yn y Gogledd-ddwyrain ac ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Ceir cynnydd sylweddol yn y boblogaeth yn ystod misoedd yr haf. Mae llai na chwarter (22.32%) poblogaeth Cymru gyfan yn byw yng Ngogledd Cymru.

Ar y tudalennau sy'n dilyn, byddwn yn edrych ar y prif risgiau yr ydym yn eu hwynebu yng Ngogledd Cymru; byddwn yn egluro beth mae'r asiantaethau sy'n ymateb i argyfyngau yn ei wneud i gynllunio ar gyfer y risgiau hyn ac yn darparu cyngor ar sut allwch chi baratoi.



# LLIFOGYDD

Mae llifogydd wedi ei ddynodi fel risg uchel iawn ar gyfer ardal Gogledd Cymru, gyda 53,860 o eiddo ar draws y rhanbarth mewn perygl o lifogydd.

Mae ymchwyddiadau storm sy'n codi lefelau'r penllanw yn gallu effeithio ar nifer o gymunedau arfordirol gan arwain at orlifo dros amddiffynfeydd môr presennol. Mae hyn yn arwain at lifogydd mewn eiddo preswyl a masnachol.

Ceir hefyd risg o lifogydd o afonydd, o ganlyniad i ormodedd o law.

Yn ogystal â'r effaith uniongyrchol ar fywyd pob dydd pan fydd llifogydd yn taro, a'r posibilrwydd y bydd pobl yn gorfod gadael eu cartrefi, gall y gwaith adfer ar ôl llifogydd mawr barhau am gyfnod hir wedi i'r lefelau dŵr ostwng.

Gyda rhagolygon newid hinsawdd yn dangos y gallwn ddisgwyl stormydd amlach a gwaeth a chynnydd yn lefelau'r môr, mae'n debygol y bydd llifogydd arfordirol yn fwy cyffredin yn y dyfodol.

## Canlyniadau

Gallai effeithiau a ragwelir gynnwys:

- Risg i fywyd (pobl ac anifeiliaid).
- Difrod i eiddo, busnesau, tir amaethyddol, ffyrdd, strwythurau ac isadeiledd.
- Llygredd a halogi amgylcheddau lleol.
- Difrod tymor hir i dwristiaeth, busnesau ac amaethyddiaeth.

## Beth ydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- Monitro rhagolygon a darparu rhybuddion amserol i'r rheini sydd mewn perygl.
- Cynllunio strategol i ddiogelu'r ardaloedd sydd mewn perygl a chynnal amddiffynfeydd môr.
- Cydweithio i helpu i amharu cyn lleied â phosib ar wasanaethau hanfodol.
- Gweithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o risgiau llifogydd a'r camau y gellir eu cymryd i baratoi eu hunain ar gyfer llifogydd.

## Beth ddylech chi ei wneud?

- Darganfod a ydi eich eiddo chi mewn perygl o lifogydd.
- Ymuno â chynllun er mwyn derbyn rhybuddion am lifogydd dros y ffôn, drwy neges destun neu e-bost.
- Ystyried sut allwch chi ddiogelu eich eiddo eich hun. Os oes amser ac os ydi hi'n ddiogel i chi wneud hynny, gosod unrhyw gyfarpar atal llifogydd sydd gennych.
- Holi'ch cwmni yswiriant i sicrhau bod eich polisi yn cynnwys llifogydd.
- Os ydi'n bosib, symud eitemau gwerthfawr i lawr uwch pan fo perygl o lifogydd.
- Gwirio rhagolygon y tywydd a chymryd sylw o rybuddion.
- Gwirio bod cymdogion a pherthnasau bregus yn ddiogel, os ydi hi'n ddiogel gwneud hynny.
- Ewch i Cyfoeth Naturiol Cymru am gyngor ac arweiniad.



# TYWYDD GARW

Mae tywydd garw yn gallu achosi problemau sylweddol ac amharu ar ein bywyd pob dydd.

Y prif fathau o dywydd garw yr ydym yn cynllunio ar eu cyfer ydi stormydd a thymhestloedd; tymheredd isel gydag eira trwm neu rew; a thywydd poeth.

Cafwyd sawl achos o'r tywydd garw yma yng Ngogledd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf ac mae rhagolygon yn awgrymu bod tywydd garw yn debygol o fod yn fwy cyffredin yn y dyfodol.

## Canlyniadau

- Amharu ar deithio.
- Pobl fregus / pobl hŷn yn gallu dioddef sgil-effeithiau'r oerfel neu ormod o wres.
- Amharu ar gyflenwadau trydan / dŵr / gwasanaethau.
- Ysgolion yn cau.
- Pobl yn llithro / disgyn.
- Damweiniau ar y ffordd.

## Beth ydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- Monitro rhagolygon y tywydd drwy'r flwyddyn.
- Cydweithio i helpu i amharu cyn lleied â phosib ar wasanaethau hanfodol.
- Dylunio a chynllunio ein gwasanaethau fel y byddant yn gydnerth.
- Graeanu a chlirio ffyrdd dynodedig.

## Beth ddylech chi ei wneud?

- Gwirio rhagolygon y tywydd a chymryd sylw o rybuddion.
- Cynllunio eich teithiau / gweithgareddau yn unol â'r rhybuddion.
- Gwneud yn siŵr fod cymdogion a pherthnasau hŷn yn ddiogel.
- Gweithredu - cadw'n gynnes neu yfed digon.
- Osgoi teithiau nad ydynt yn hanfodol yn ystod cyfnodau o dywydd garw.



# PANDEMIG

**Bydd pandemig yn digwydd pan fydd firws newydd yn ymddangos sydd â'r gallu i ledaenu o berson i berson. Nid oes gan y rhan fwyaf o bobl imiwnedd iddo, ac mae'r firws yn ymledu ar draws y byd.**

Gall niferoedd mawr o bobl gael eu heintio gan firws newydd mewn cyfnod cymharol fyr.

Yn wahanol i firws ffliw arferol, sy'n digwydd yn ystod misoedd y gaeaf, gall pandemig ddigwydd ar unrhyw adeg ar ffurf un don neu fwy, o bosib yn wythnosau neu'n fisoedd ar wahân.

## Mae'r modd yr ymledodd Covid-19

Coronafirws wedi amlygu ei bod yn anodd darogan effaith pandemig. Mae'r firws wedi effeithio ar fywydau miliynau o bobl ar draws y byd ac wedi arwain at farwolaeth cannoedd o filoedd o bobl.

## Canlyniadau

Gall miliynau lawer o bobl gael eu heintio o gwmpas y byd. Byddai cymaint â hanner poblogaeth y DU yn gallu cael eu heintio a gellir cael rhwng 50,000 a 750,000 o farwolaethau ychwanegol erbyn diwedd pandemig. Byddai'n debygol o darfu'n fawr ar fywyd pob dydd o ganlyniad i brinder staff, yn enwedig o ran darparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys cynhyrchu a chludo nwyddau.

## Beth ydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- Fel mae pandemig Covid-19 wedi dangos, mae trefniadau ar waith gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar y cyd â nifer fawr o bartneriaid, i reoli'r galw cynyddol am wasanaethau gofal iechyd.
- Mae partneriaid yn cydweithio i ddosbarthu meddyginiaethau ac i frechu'r rheini sydd mewn perygl, cyn gynted ag y cynhyrchir brechiad addas, mewn pandemig.
- Mae cynlluniau a gweithdrefnau'n cael eu profi a'u hadolygu a gweithredir y gwelliannau sy'n cael eu hadnabod.

## Pethau y gallwch chi eu gwneud

- Mewn pandemig, dilynwch y canllawiau diweddaraf gan yr awdurdoadu iechyd.
- Cadw'n iach - mae ffordd iach o fyw yn amddiffyniad da rhag y ffliw a mathau eraill o salwch.
- Pennu 'ffrind ffliw' - rhywun a fyddai'n casglu'ch meddyginiaeth, eich bwyd a chyflenwadau eraill os byddwch yn dal y ffliw.
- Gofalu eich bod yn cael eich brechiad ffliw tymhorol am ddim bob blwyddyn, os ydych yn gymwys.
- Gall brechiadau ffliw fod ar gael hefyd i'r rheini nad ydyn nhw'n gymwys i gael brechlyn am ddim. Bydd manylion ar gael yn eich fferyllfa gymunedol leol.
- Er mwyn peidio â lledaenu germau, cuddiwch eich ceg a'ch trwyn wrth disian a golchwch eich dwylo wedyn.



# TERFYSGAETH

**Yn ddiweddar, mae ymosodiadau terfysgol yn rhywbeth yr ydym wedi ei weld yn fwy aml ar y newyddion. Er hynny, mae wedi bod ar yr agenda gan yr heddlu a'r gwasanaeth diogelwch am lawer hirach. Maent wedi bod yn gweithio'n gyson i rwystro terfysgwyr ers nifer o flynyddoedd.**

Er bod y tebygolrwydd o gael eich dal mewn ymosodiad terfysgol yn fychan iawn, mae bygythiad terfysgaeth yn real iawn. Mae terfysgwyr yn gweithio i ddifrodi cymunedau Ond, drwy gydweithio gall cymunedau fynd i'r afael â'r broblem fel bod pawb yn gallu byw eu bywydau bob dydd mewn modd rhydd a hyderus.

Er bod ymosodiadau o'r fath yn dal yn brin iawn yn y DU, mae digwyddiadau diweddar gartref a thramor wedi golygu bod pobl yn naturiol yn pryderu am ymosodiadau drylliau neu arfau.

Byddai effaith a chanlyniadau ymosodiad terfysgol yn eang a diwrthdro.

Byddai llu o farwolaethau, anafiadau helaeth, ofn a phryder a difrod i eiddo neu isadeiledd i gyd yn bosibiliadau.

## Beth ydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

Yr heddlu sy'n arwain ar yr holl waith cynllunio mewn perthynas â gwrthderfysgaeth. Ond mae partneriaid allweddol yn gweithio gyda nhw i helpu i leihau'r risg a sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu drwy gefnogi'r Strategaeth Gwrthderfysgaeth genedlaethol.

## Pethau y gallwch chi eu gwneud

Os ydych yn gweld neu'n clywed rhywbeth allai fod yn ymwneud â therfysgaeth, dilynwch eich greddf a ffoniwch y llinell gymorth gwrthderfysgaeth gyfrinachol ar 0800 789321.

- Er ei fod yn annhebygol, pe byddech yn cael eich dal mewn digwyddiad terfysgol, dilynwch gyngor Rhedwch, Cuddiwch, Dywedwch:
- Rhedwch i le diogel. Mae hwn yn ddewis gwell o lawer nag ildio neu geisio trafod.
- Os nad oes unman y gallwch fynd, yna cuddiwch. Mae'n well cuddio na wynebu'r ymosodwyr.
- Cofiwch droi eich ffôn i ddistaw a throi digrynu i ffwrdd.
- Codwch faricêd o'ch blaen os gallwch.
- Yna, yn olaf, a dim ond pan fo'n ddiogel i wneud hynny, dywedwch wrth yr heddlu drwy ffonio 999.

Os gofynnir i chi adael adeilad, dilynwch gyfarwyddiadau'r gwasanaethau brys.



# DIGWYDDIADAU DIWYDIANNOL

**Gall damweiniau diwydiannol ddigwydd ar safleoedd a reoleiddir neu mewn cysylltiad â cherbydau neu longau sy'n cludo deunyddiau diwydiannol drwy ardal Gogledd Cymru.**

Gall digwyddiadau gynnwys ffrwydradau diwydiannol a thanau mawr, rhyddhau deunydd gwenwynig neu ymbelydrol neu fod â'r potensial i achosi anafiadau difrifol i'r cyhoedd a difrod i'r amgylchedd lleol.

Mae amrediad o ddeddfwriaeth yn ei le i reoli'r risg:

- Mae Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) 2015 yn ceisio atal damweiniau mawr sy'n gysylltiedig â sylweddau peryglus a chyfyngu'r effeithiau ar y cyhoedd a'r amgylchedd.
- Mae dwy gyn orsaf ynni niwclear yng Ngogledd Cymru, gyda Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol 2019 (REPPIR) ar waith i reoli risgiau posib.
- Mae Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996 hefyd yn gorfodi rheoliadau sy'n ymwneud â Phiblinellau Gwasgedd Uchel Peryglon Damweiniau Mawr (MAHP) sy'n croesi Gogledd Cymru

## Canlyniadau:

- Risgiau i iechyd y cyhoedd.
- Llygru'r amgylchedd naturiol.
- Difrod posib i eiddo a'r ardal leol.
- Effaith bosib ar dwristiaeth a busnesau lleol.

## Beth ydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- Cydweithio â gweithredwyr safleoedd i ddatblygu cynlluniau ymateb oddi ar y safle ynghyd â gwybodaeth benodol i gymunedau cyfagos am y camau i'w cymryd pe bai digwyddiad.
- Hwyluso ymarferiadau rheolaidd i roi prawf ar drefniadau ymateb ar safleoedd a'r tu allan iddynt a phennu safleoedd a all achosi perygl a datblygu gweithdrefnau ymateb aml-asiantaethol.

## Beth ddylech chi ei wneud?

- Bod yn ymwybodol os ydych yn byw gerllaw safle diwydiannol a chymryd sylw o unrhyw neges a gewch gan weithredwyr safleoedd. Dilynwch y cyfarwyddiadau hynny ac aros am fwy o gyngor.
- Os byddwch yn clywed rhybudd am argyfwng, ewch i mewn i'ch cartref, caewch yr holl ffenestri a'r drysau a gwrandewch ar orsafoedd radio lleol / defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol dibynadwy i gael mwy o wybodaeth.
- Cydweithredu'n llawn gyda'r gwasanaethau brys. Bod o gymorth i chi ydi eu gwaith. Peidiwch â chynhyrfu a gwrandewch ar eu cyfarwyddiadau os cewch eich symud o'ch cartref am unrhyw reswm.





# COLLI ISADEILEDD HANFODOL

**Isadeiledd Hanfodol ydi'r enw a roddir ar y gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt fel rhan o fywyd modern ac economi fodern; maent yn cynnwys trydan, nwy, dŵr yfed, telegyfathrebu, olew a thanwydd.**

Gyda dibyniaeth gynyddol ar wasanaethau fel trydan, dŵr a nwy am sawl agwedd o'n bywydau, gallai colledion lleol hyd yn oed gael effaith sylweddol ar y rhai a effeithir.

## Canlyniadau

- Diffyg dŵr yfed.
- Cartrefi heb drydan / nwy / olew yn cyfyngu ar allu pobl i baratoi bwyd a chadw'n gynnes.

## Beth ydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- Cydweithio â chwmnïau cyfleustodau i reoli toriadau ar gyflenwadau.
- Datblygu cynlluniau aml-asiantaethol i reoli ymyriadau tymor hir ar wasanaethau.
- Adnabod preswylwyr bregus a allai fod angen cymorth ychwanegol.

## Beth ddylech chi ei wneud?

- Cadw rhifau ffôn er mwyn cysylltu â'r cwmnïau cyfleustodau.
- Darganfod lle a sut i ddiffodd cyflenwadau dŵr, nwy a thrydan yn eich cartref.
- Cadw pecyn argyfwng yn barod.
- Gwirio bod cymdogion a pherthnasau yn ddiogel.



# CLEFYDAU ANIFEILIAID

**Y clefydau anifeiliaid sy'n achosi'r pryder mwyaf ydi'r rheini sy'n hynod heintus, yn achosi cyfraddau marwolaeth uchel ymysg da byw neu'n gallu heintio pobl.**

Mae sawl achos o glefydau anifeiliaid sylweddol wedi'u hadnabod yn y DU. Clwy'r Traed a'r Genau, Tafod Glas, y Clwyf Du (Anthracs) a Ffliw Adar ydi'r enghreifftiau mwyaf adnabyddus diweddar.

### Canlyniadau

- Effaith ar amaethyddiaeth, y gadwyn fwyd, yr economi wledig a thwristiaeth.

### Beth ydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- Llunio cynlluniau aml-asiantaethol i reoli achosion o glefydau anifeiliaid.
- Codi ymwybyddiaeth o glefydau ymysg ffermwyr a gweithwyr fferm.

### Beth sydd angen i chi ei wneud?

- Os oes achos o glefyd mewn anifeiliaid yn cael ei ddatgan, dilynwch unrhyw gyfarwyddiadau gan y llywodraeth ar y pryd i ddiogelu'ch da byw a chyfyngu ymlediad y clefyd.
- Brechu da byw os ydi'n bosib.
- Sicrhau eich bod yn cadw at y Cod Cefn Gwlad pan fyddwch yn mynd o le i le.
- Os oes achos o glefyd mewn anifeiliaid yn cael ei ddatgan, dilynwch gyngor gan awdurdodau perthnasol er mwyn helpu i gyfyngu ymlediad y clefyd.



# LLYGREDD

**Gallai llygredd ar y morlin, mewn afonydd, cronfeydd dŵr ar dir neu yn yr aer gael effaith ddifrifol ar iechyd, yr amgylchedd a'r economi leol. Gall llygredd fod ar ffurf arllwysiad olew, gollyngiad cemegol neu fwg o dân mawr.**

## Canlyniadau

- Risg i iechyd preswylwyr lleol ac ymwelwyr.
- Difrod i'r amgylchedd a bywyd gwyllt.
- Effaith ar dwristiaeth ac amaethyddiaeth.

## Beth ydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- Cynnal cynlluniau aml-asiantaethol ar gyfer glanhau ar ôl colli neu ollwng sylweddau er mwyn. lleihau'r effaith.

## Beth ddylech chi ei wneud?

- Os byddwch yn dod yn ymwybodol o achos posib o lygredd, rhowch wybod am y mater i'ch Cyngor Sir lleol yn y lle cyntaf.
- Dilyn cyngor a ddarperir gan y sefydliadau sy'n ymateb i'r digwyddiad, e.e. aros tu mewn, cau ffenestri.
- Gwrando ar radio lleol / dilyn cyfryngau cymdeithasol dibynadwy.




# DIGWYDDIADAU CLUDIANT

**Mae'r rhan fwyaf ohonom yn dibynnu ar gysylltiadau cludiant yn ein bywyd pob dydd – i deithio'n ôl ac ymlaen i'r gwaith neu i ddefnyddio gwasanaethau hanfodol. Felly, os bydd digwyddiad neu ddamwain yn effeithio ar gysylltiadau cludiant allweddol, megis yr A55 a chefnffyrdd eraill, gall y canlyniadau fod yn bellgyrhaeddol a gallent beryglu bywyd.**

Gall argyfyngau cludiant fod yn ganlyniad i ddamweiniau neu broblemau a achoswyd gan dywydd garw fel eira neu lifogydd. Bydd partneriaid allweddol, yn cynnwys y gwasanaethau brys, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Cynghorau Sir, cwmnïau rheilffyrdd a llongau fferi, yn cydweithio i ddarparu gwybodaeth am ddamweiniau trafnidiaeth ac yn sefydlu gwyriadau trafnidiaeth neu drefniadau cludiant eraill os bydd angen.

## Canlyniadau

- Tarfu ar y gallu arferol i deithio.
- Anaf neu berygl i fywyd ac oedi posib wrth i wasanaethau brys gyrraedd pobl.
- Pobl yn sownd mewn cerbydau mewn tywydd garw.
- Effeithiau ar yr amgylchedd os fydd sylweddau peryglus yn cael eu colli / gollwng i'r amgylchedd lleol.
- Difrod posib i adeiladau neu isadeiledd.
- Effaith ar fusnesau lleol oherwydd oedi.

## Beth ydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru?

- Mae'r holl awdurdodau priffyrdd perthnasol yn cydweithio i gynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr ac yn cadw'r holl briffyrdd yn agored pan geir problemau.
- Cydweithio â chwmnïau rheilffyrdd, porthladdoedd a fferïau i gynllunio ar gyfer digwyddiadau sy'n effeithio ar deithwyr.

## Beth ddylech chi ei wneud?

- Cynllunio teithiau ymlaen llaw a gwrando ar yr orsaf radio leol.
- Cadw pecyn argyfwng yn eich car.
- Sicrhau bod eich cerbyd mewn cyflwr sy'n addas i'r ffordd fawr ac yn ddiogel a chydymffurfio â rheolau'r ffordd fawr.
- Peidio â mynd ar deithiau diangen yn ystod tywydd garw.



# BOD YN BAROD YN Y CARTREF

## Beth allwch chi ei wneud i baratoi'n well yn eich cartref?

Yn achos y mwyafrif o argyfyngau mawr, y cyngor syml ydi aros tu mewn, gwrando ar radio lleol, teledu a chyfryngau cymdeithasol dibynadwy.

## Cynllunio ar gyfer argyfwng

Er mwyn paratoi ar gyfer argyfwng, dylech gymryd yr amser i ganfod:

- Lle a sut i ddiffodd eich cyflenwadau dŵr, nwy a thrydan yn eich cartref
- Gweithdrefnau argyfwng ar gyfer eich plant yn yr ysgol
- Gweithdrefnau argyfwng yn eich gweithle
- Sut fydd eich teulu yn cadw mewn cysylltiad mewn argyfwng
- Os oes cymdogion hŷn neu fregus allai fod angen eich cymorth
- Sut i diwnio i mewn i'ch gorsaf radio leol.

## Yn y cartref mewn argyfwng

Casglwch yr isod fel pecyn argyfwng:

- Rhestr o rifau ffôn defnyddiol, e.e. eich meddyg a theulu agos
- Allweddi'r cartref a'ch car
- Pethau ymolchi, cyflenwadau iechydol a meddyginiaethau sydd ar bresgripsiwn rheolaidd
- Radio y gallwch ei weindio neu radio wedi'i bweru gan fatris gyda batris sbâr
- Pecyn cymorth cyntaf
- Ffôn symudol a gwefrwr batri
- Arian parod a chardiau banc
- Poteli dŵr, bwyd sy'n barod i'w fwyta.

Mae templed i helpu i baratoi Cynllun Argyfwng i'r Cartref ar gael o Cynghorau Gogledd Cymru Gwasanaeth Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol.

## Gadael eich cartref mewn argyfwng

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosib y bydd y gwasanaethau brys yn gofyn i chi adael eich cartref. Os fydd hyn yn digwydd, gadewch cyn gynted ac mor bwyllog â phosib.

Os fydd gennych amser:

- Diffoddwch eich cyflenwadau trydan, nwy a dŵr, tynnwch unrhyw blygiau a chlowch bob drws a ffenestr
- Ewch â'ch pecyn argyfwng efo chi
- Os ydych yn gadael gyda char, ewch â photeli dŵr a blancedi efo chi
- Ewch â'ch anifeiliaid anwes (gyda chludwyr neu denynnau addas) a bwyd iddynt efo chi
- Gwrandewch ar eich gorsaf radio lleol / defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol dibynadwy am gyngor mewn argyfwng a chyfarwyddiadau .
- Gwrandewch ar y cyngor gan y gwasanaethau brys neu awdurdodau lleol am unrhyw gamau penodol y mae'n rhaid i chi eu cymryd pan fydd hi'n ddiogel i chi ddychwelyd adref.



# BUSNESAU YN BOD YN BAROD

**Os ydych yn berchen ar fusnes neu sefydliad, neu'n gyfrifol am un, a ydych wedi ystyried yr effeithiau o ganlyniad i argyfyngau?**

### Sut fyddai eich sefydliad yn ymdopi â:

- Gostyngiad sydyn a sylweddol mewn niferoedd staff?
- Methu â chael mynediad i safle neu ardal ddaearyddol?
- Colli prif gyflenwad trydan yn annisgwyl?
- Colled dros dro yng nghyflenwadau nwy, dŵr a charthffosiaeth?
- Amhariad sylweddol ar drafnidiaeth?
- Colli telegyfathrebu.

## Gwnewch yn siŵr fod gan eich busnes gynllun parhad

### Deall eich busnes

Pa rannau o'r busnes sy'n hanfodol a pha flaenoriaeth fyddech chi'n ei rhoi i adfer swyddogaethau os ydynt yn methu?

### Pa risgiau mae eich busnes yn eu hwynebu?

Ystyriwch y risgiau hyn yn asesiad risg eich busnes. Beth allwch chi ei roi yn ei le i leihau tebygolrwydd y risgiau a/neu eu heffaith?

Ystyriwch anghenion pob un o swyddogaethau eich busnes o ran adnoddau

- Pobl
- Eiddo
- Offer
- Gwybodaeth
- Cyfathrebu
- Cyflenwyr/contractwyr allanol

### Dogfennwch wybodaeth

Dogfennwch wybodaeth am swyddogaethau hanfodol eich busnes a'r adnoddau angenrheidiol yn cynnwys addasiadau / cymhorthion ar gyfer pob un mewn modd sy'n hawdd i'w ddefnyddio.

### Hyfforddwch a phrofwch eich staff

Hyfforddwch a phrofwch eich staff i weithredu'r cynllun parhad a'r swyddogaethau a'r gweithdrefnau sy'n rhan ohono.



# EISIAU GWYBOD MWY

**Mae manylion pellach ynglŷn â pharatoi am argyfyngau.**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
01248 750057

www.ynysmon.llyw.cymru

X: cyngormon

Facebook: cyngormon

Instagram: cyngormon

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
01492 574000

www.conwy.gov.uk

X: CBSConwy

Facebook: CBSConwy

Instagram: cbsconwy

**Cyngor Sir Ddinbych**
01824 706000

www.sirddinbych.gov.uk

X: CyngorSDd

Facebook: cyngorsirddinbych

Instagram: cyngorsirddinbych

**Cyngor Sir y Fflint**
01352 752121

www.siryfflint.gov.uk

X: CSyFflint

Facebook: CSyFflint

**Cyngor Gwynedd**
01766 771000

www.gwynedd.llyw.cymru

X: CyngorGwynedd

Facebook: CyngorGwyneddCouncil

Instagram: cyngorgwynedd

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
01978 292000 / 01978 292055

www.wrecsam.gov.uk

X: cbswrecsam

Facebook: cyngorwrecsam

Instagram: cbswrecsam

**Heddlu Gogledd Cymru**
101 neu 0300 330 0101

Brys: 999

www.north-wales.police.uk

X: HeddluGogCymru

Facebook: HeddluGogleddCymru

Instagram: heddlugogleddcymru

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
01745 535 250

www.tangogleddcymru.llyw.cymru

X: NorthWalesFire

Facebook: Northwalesfireservice

Instagram: northwalesfire



**Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**
01745 532900

ambiwlans.gig.cymru

X: Ambiwlans Cymru

Facebook: AmbiwlansCymru

Instagram: welshambulanceservice

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
01248 384 384

bipbc.gig.cymru

X: betsicadwaladr

Facebook: BetsiCadwaladr

Instagram: betsicadwaladr

**Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau E F**
01407 762051

hmcoastguard.uk

X: MCA_media

Facebook: MCA

Instagram: maritimecoastguard

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
0300 065 3000

www.cyfoethnaturiol.cymru

X: NatResWales

Facebook: NatResWales

Instagram: natreswales

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**
02920 227 744

icc.gig.cymru

X: IechydCyhoeddus

Facebook: IechydCyhoeddusCymru

Instagram: publichealthwales

**Gwasanaeth Traffig Cymru**
0300 123 1213

www.traffig.cymru

X: TraffigCymruG



# CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

**Toriadau Pŵer**
105

**Argyfwng Nwy**
0800 111 999

**Dwr Cymru / Welsh Water**
0800 052 0130

www.dwrcymru.com

X: DwrCymru

Facebook: DwrCymruWelshWater

**Hafren Dyfrdwy**
0800 085 8033

www.hdcymru.co.uk

**Galw Iechyd Cymru**
111

www.111.wales.nhs.uk

X: GIG111Cymru

Facebook: GIG111Cymru

**Rhybuddion Llifogydd**
0345 988 1188

www.naturalresources.wales/flooding

X: NatResWales

Facebook: NatResWales

## CYFRYNGAU LLEOL

**BBC Radio Wales**
103.9 FM

**BBC Radio Cymru**
92.4 - 94.6 FM

**HEART Gogledd Cymru a'r Gorllewin**
103.4, 96.3 and 103 FM

**Dee 106.3 FM**
106.3 FM

**Môn FM**
102.5 FM

## GWEFANNAU DEFNYDDIOL

www.gov.uk

www.llyw.cymru

www.traffig.cymru

www.metoffice.gov.uk

www.bbc.co.uk/cymru

Fforwm Cymru Gydnerth

OS BYDD YNA ARGYFWNG,
FFONIWCH 999